Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Saron
# Saron
# Rhydaman
# SA18 3LH

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gynradd Saron sy'n gwasanaethu pentrefi Saron a Chapel Hendre, yn Sir Gaerfyrddin. Mae 229 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Caiff disgyblion y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Daw bron i hanner y disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig.

Mae 7.9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 73 o ddisgyblion (31%) wedi eu dynodi gan yr ysgol yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r plant yn dechrau yn yr ysgol yn y tymor cyn eu bod yn bedair oed ac yn gorffen pan fyddant yn un ar ddeg oed. Mae naw dosbarth, pedwar ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen a phump ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae wyth o athrawon amser llawn a dau athro rhan-amser. Mae'r pennaeth presennol wedi arwain yr ysgol ers 2004. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Saron yn 2016-2017 yw £3,210. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gynradd Saron yn safle 95 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac aeddfed iawn
- medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn iawn
- rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos mwynhad, brwdfrydedd a diddordeb mawr yn eu gwaith
- llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus i wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth yn annibynnol
- athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn drwy'r ysgol, gan roi sylw manwl i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â TGCh, medrau meddwl a'r dimensiwn Cymreig
- addysgu o safon uchel yn digwydd yn gyson iawn ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- y pennaeth yn brofiadol ac yn glir, tawel a chadarn ei harweiniad
- arweinyddiaeth yr ysgol yn dangos parodrwydd i arloesi ac i gymryd risg wrth symud yr ysgol yn ei blaen
- pedwar tîm dysgu yn gweithio'n effeithiol iawn i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol iawn ac yn rhan greiddiol, fyw a chreadigol iawn o waith yr ysgol

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach allu disgyblion cyfnod allweddol 2 i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion wrth ddechrau yn yr ysgol yn dda. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Yn gynnar iawn yn eu gyrfa ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac aeddfed iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'u medrau dysgu yn effeithiol iawn i wneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'u gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau llafar bron pob disgybl yn datblygu'n gryf ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, o oed cynnar, maent yn sgwrsio'n naturiol yn Gymraeg gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a phynciol sy'n gynyddol eang. Mae'r disgyblion sy'n hanu o gartrefi lle nad yw'r teulu'n siarad Cymraeg yn caffael yr iaith yn gyflym a llwyddiannus. Mae disgyblion o bob oed yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau a chyflwyniadau. Maent yn mynegi barn yn glir, ac yn sgwrsio'n frwdfrydig ac estynedig am y gweithgareddau, gan ymateb i gwestiynau yn synhwyrol ac aeddfed.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu geirfa lafar bynciol a chyffredinol gyfoethog yn Gymraeg a Saesneg wrth ymdrin â'u gwaith, neu weithgareddau eraill. Gallant fynegi eu hunain yn glir ac yn estynedig yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth ac wrth ymateb i gwestiynau. Ar y cyfan, maent yn hyderus wrth wneud cyflwyniadau effeithiol ar bwnc sydd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am eu dewis o arwr fel rhan o'r thema 'Arwyr a Dihirod'.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn drwy'r ysgol. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau, ac maent yn trafod eu cynnwys yn ddeallus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen Cymraeg yn effeithiol, gan ddefnyddio goslef llais yn dda i gyfleu ystyr. Defnyddiant dechnegau effeithiol i ddarllen geiriau anodd neu anghyfarwydd. Maent yn darllen o ffynonellau amrywiol fel taflenni, y bwrdd gwyn, sgrin cyfrifiadur a chyfarwyddiadau i'w galluogi i ymateb i heriau'r dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol effeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn deall nodweddion llyfrau ac awduron yn dda ac yn gallu nodi eu hoffterau'n glir. Maent yn defnyddio ffynonellau gwahanol yn llwyddiannus, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er mwyn caffael gwybodaeth sy'n cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys caffael gwybodaeth mewn un iaith, ac ymateb iddo'n ysgrifenedig neu ar lafar yn yr iaith arall.

Mae medrau ysgrifennu Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda iawn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae llawer ohonynt yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn effeithiol. Gall llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 ysgrifennu darnau estynedig mewn ystod addas o ffurfiau,

wrth ymateb i weithgareddau amrywiol. Er enghraifft, maent yn ailadrodd stori Guto Ffowc a stori'r Nadolig ar ffurf naratif, ac yn ysgrifennu llythyr yn sôn am brofiad unigol mewn fformat cywir, a phortread o Ben y ci defaid. Mae'r disgyblion hyn yn gwbl ymwybodol o ba bryd a ble i ddefnyddio llythrennau bras, atalnod llawn, gofynnod ac ebychnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg a Saesneg mewn amrywiaeth dda o ffurfiau i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn effeithiol, gan greu paragraffau diddorol sydd wedi eu strwythuro'n drefnus. Maent yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, gan ddefnyddio geirfa dda yn y ddwy iaith. Maent yn ffurfio darnau estynedig diddorol ynglŷn ag amrywiol bynciau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu deialog yn seiliedig ar chwedl y Brenin Arthur, ac yn creu adroddiad ffeithiol am wenyn gan ymchwilio i'r wybodaeth mewn llyfrau a thrwy ddefnyddio TGCh.

Mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen rhan fwyaf y disgyblion yn daclus a threfnus, ac yn dangos cynnydd cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni amrywiaeth dda o waith mathemateg i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gallu cyfrifo'r rhan fwyaf yn gadarn, ac maent wedi meistroli'r pedair rheol sylfaenol yn dda.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion wneud cyfrifiadau pen yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrif ymlaen ac yn ôl fesul 2, 5 a 10 gan ddechrau o unrhyw rif. Maent yn deall y cysyniad o ddweud yr amser fesul chwarter awr, ac yn gallu darllen y cloc a chofnodi mewn ffurf ddigidol neu mewn geiriau. Maent yn creu graffiau syml yn seiliedig ar ddata maent yn ei gasglu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd a ddysgant mewn gweithgareddau ffocws mathemategol yn llwyddiannus i weithgareddau priodol ar draws y meysydd dysgu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu yn cyflawni gwaith o safon uchel. Er enghraifft, maent yn deall ac yn defnyddio fformiwlâu yn effeithiol i gyfrifo perimedr ac arwynebedd petryalau, trionglau a chylchoedd. Yn eu gwersi mathemateg, maent yn datblygu medrau rhifedd yn effeithiol, ac yn cymhwyso'r medrau hynny'n llwyddiannus iawn, ac ar y safon briodol, i weithgarwch ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y thema Arwyr a Dihirod, maent wedi gosod arwyr mewn gwahanol gategorïau, a chyflwyno'r wybodaeth mewn ffurfiau gwahanol, fel ffracsiwn, degolion a chanrannau, yn ogystal ag fel graff.

Ar draws yr ysgol, mae safonau TGCh y disgyblion yn uchel iawn. O'r dosbarth cyn-derbyn ymlaen, dengys y disgyblion hyder llwyr wrth ddefnyddio'r offer TGCh i'w cynorthwyo gydag amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae cynnydd a pharhad amlwg wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn. Ym mhob dosbarth, defnyddiant raglenni sy'n fwyfwy cymhleth i greu a chyflwyno gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ddarluniau, darnau ysgrifenedig, cerddoriaeth a llais. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i'w cynorthwyo gyda gwaith mathemateg, er enghraifft trwy dynnu ffotograff o wynebau clociau o gwmpas yr ardaloedd dysgu ac yna recordio'u llais yn dweud yr amser.

Yng nghyfnod allweddol 2, gwna'r disgyblion ddefnydd helaeth o TGCh i ganfod gwybodaeth am eu meysydd astudio, ac i gyflwyno eu gwaith. Maent yn hyderus ym mhob elfen o'r cwricwlwm TGCh. Er enghraifft, gallant ddefnyddio taenlenni i gynorthwyo gyda chadw data a chreu graffiau, gan osod fformiwlâu perthnasol yn y blychau data i gyfrifo cyfanswm, cyfartaledd ac ati. Maent yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol syml er mwyn creu a gosod cyfres o gyfarwyddiadau i 'robot' ar y sgrin.

Mae hyder a naturioldeb y disgyblion wrth ddefnyddio TGCh, a'r ystod eang o weithgareddau maent yn eu cyflawni, yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol.

Mae cynnydd cyffredinol dda ym mherfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 dros bedair blynedd ym mhob un o'r meysydd dysgu a'r pynciau craidd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, disgynnodd canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim o dan 8% i 7.9%. Mae canlyniadau asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uwch dros bedair blynedd.

Yr un yw'r patrwm hefyd ar y lefelau uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2.

Nid oes patrwm penodol o wahaniaethau rhwng cyraeddiadau bechgyn a merched, er nad yw bechgyn yn perfformio cystal yn y Gymraeg ar y lefelau uwch.

Nid oes digon o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, disgyblion o gefndiroedd ethnig, na disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol o fewn carfanau penodol i ddod i gasgliadau ystyrlon ar sail data. Fodd bynnag, mae'r disgyblion hyn bron i gyd yn gwneud cynnydd da mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da wrth ymateb i'w targedau personol.

### Lles: Rhagorol

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel. Mae ymddygiad bron pob un yn ardderchog. Dangosant barch tuag at eu cyfoedion ac at oedolion, yn cynnwys staff yr ysgol ac ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos mwynhad, brwdfrydedd a diddordeb mawr yn eu gwaith. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n effeithiol iawn yn annibynnol gan gadw'n weithgar ar dasg am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent yn cwblhau nifer penodol o dasgau annibynnol heriol ar draws y meysydd dysgu yn gyson, sy'n atgyfnerthu'r hyn a ddysgant mewn sesiynau ffocws. Mae nifer o'r heriau hyn wedi eu gosod yn dilyn awgrymiadau gan y disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus i wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth yn annibynnol wrth gwblhau tasgau a gweithgareddau. Mewn lleiafrif o wersi, gwnânt awgrymiadau da sy'n gosod cyfeiriad penodol i'w dysgu.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth glir o pa mor dda maent yn llwyddo yn eu tasgau, a beth sydd angen iddynt ei wneud i'w gwella. O ganlyniad, maent yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion yn hyderus a deallus yn erbyn meini prawf cadarn.

Lefel presenoldeb presennol yr ysgol yw 96.3%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Gan amlaf, mae lefelau presenoldeb wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y 4 blynedd ddiwethaf.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n weithredol ac amlwg i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cynrychioli safbwynt eu cyd-ddisgyblion yn effeithiol iawn ac wedi sicrhau newid buddiol yn amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, o ganlyniad i waith y cyngor ysgol a'r siarter iaith, sefydlwyd radio ysgol i chwarae cerddoriaeth Gymraeg ar y iard chwarae, a llwybr rhedeg ar y maes chwarae. Mae'r pwyllgor eco'n weithgar iawn ac yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau'r wythnos natur, sioeau ffasiwn gyda defnyddiau a ailgylchwyd, a chynnal ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o gynaliadwyedd, trwy ei fonitro'n rheolaidd iawn. Mae gan ailgylchu a chynaliadwyedd le amlwg iawn yn yr ysgol. Er enghraifft, bu disgyblion y dosbarth derbyn ar 'helfa sbwriel' ar dir yr ysgol, gan drafod y dull gorau o gael gwared o'r sbwriel a gasglwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd y cyfle i fynegi barn a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol. Er enghraifft, dylanwadodd y disgyblion yn gryf ar god marcio'r ysgol ac ar y dull o osod targedau unigol, ac ar y trefniadau i hwyluso trosglwyddo rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 3.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'u hawliau fel unigolion, yn unol â chanllawiau siarter hawliau plant y Cenhedloedd Unedig. Mae'r siarter yn amlwg ym mywyd yr ysgol.

Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o fwyta'n iach ac maent yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol, gweithgareddau allgyrsiol ac ar yr iard chwarae. Mae hyn yn cynnwys amryw o weithgareddau a chystadlaethau chwaraeon a drefnwyd gan yr ysgol a'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn weithgar yn y gymuned leol yn diddori henoed y pentref ac yn cynnal gwasanaethau mewn capeli ac eglwysi lleol, ac mae disgyblion yn elwa o gefnogaeth nifer o aelodau'r gymuned sy'n dod i hybu eu medrau darllen.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r cynllunio yn effeithiol iawn trwy'r ysgol. Mae'r cynllunio tymor hir a chanolig yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon ac yn gosod sail gref i'r cynlluniau tymor byr. Maent yn rhoi sylw manwl i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â TGCh, medrau meddwl a'r dimensiwn Cymreig. Maent yn drwyadl ac yn sicrhau cysondeb a dilyniant yn yr addysgu a disgwyliadau uchel, ac yn ateb anghenion carfanau penodol o ddisgyblion yn arbennig o dda. Mae'r ysgol yn ateb gofynion y

Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn llawn. Mae disgyblion yn cael cyfle cyson i nodi'r hyn y dymunant ei ddysgu mewn thema; cânt awgrymu tasgau i'w cyflawni, ac mae'r athrawon yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hyn.

Mae gwir egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu yn effeithiol iawn ac yn un o gryfderau mawr yr ysgol. Mae'r amgylchedd dysgu, gan gynnwys ardaloedd allanol, yn gyfoethog ac yn symbylu'r disgyblion i ymchwilio a gweithio'n annibynnol. Mae cynllunio celfydd gan athrawon yn cynnig profiadau uniongyrchol a gwerthfawr i'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r adnoddau TGCh ar draws y cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn gwbl hyderus wrth ddefnyddio ystod gynyddol o offer a rhaglenni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gryf iawn, ac yn gynwysedig ym mhob cynllun gwaith. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i astudio hanes lleol, chwedlau fel Stori Santes Dwynwen a hanes Cymry enwog, gan gynnwys arlunwyr amlwg lleol a Chymreig. Mae ystod o ymweliadau â mannau diddorol, holi ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda, er enghraifft ymweliad Blwyddyn 5 a 6 â pherfformiad am yr Arglwydd Rhys mewn plasty yn Llandeilo. Mae gweithgareddau sy'n deillio o ganllawiau'r Siarter Iaith yn ehangu'r ddarpariaeth ymhellach, er enghraifft trwy godi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg ar y radio ysgol, ac ymweliadau gan gerddorion amlwg. O ganlyniad i hyn oll, mae ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn gwbl gadarn.

Caiff dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ei hybu'n dda trwy weithgareddau fel wythnos masnach deg, casglu dillad i Affrica, gwaith am wledydd tramor yn y cwricwlwm a'r wythnos ryngwladol. Mae darpariaeth effeithiol iawn er mwyn cefnogi gwaith y pwyllgor eco.

### Addysgu: Rhagorol

Cryfder amlwg yn yr ysgol yw natur yr addysgu. Mae cyd-ddealltwriaeth gref iawn rhwng yr athrawon a'i gilydd ynglŷn â dysgu ac addysgu. Mae hyn yn sicrhau bod addysgu o safon uchel yn digwydd yn gyson iawn ar draws yr ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu'n glir iawn yng nghynlluniau gwaith wythnosol yr athrawon.

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth drwyadl am gyrhaeddiad y disgyblion ac maent yn cynllunio tasgau sy'n herio cyrhaeddiad pob un ohonynt, beth bynnag eu lefel gallu. Mae athrawon yn annog medrau dysgu annibynnol y disgyblion trwy amryw o ddulliau addysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae pob athro yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion awgrymu gweithgareddau a thasgau ar gyfer pob thema, ac yn cynnwys yr awgrymiadau yn eu cynlluniau wythnosol. Mae'r athrawon yn hybu disgyblion pen uchaf cyfnod allweddol 2 yn aml i ddewis drostynt eu hunain ar ba ffurf y maent eisiau cyflwyno gwybodaeth am bynciau penodol.

Mae perthynas waith ardderchog rhwng disgyblion ac athrawon, ac mae'r cynorthwywyr dysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at y broses addysgu. Mae'r athrawon yn cyflwyno gweithgareddau diddorol a heriol sy'n tanio brwdfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, maent yn ymrwymo'n dda iawn i'w gwaith. Er enghraifft, arweiniwyd disgyblion y dosbarth derbyn ar 'helfa sbwriel' ar dir yr ysgol fel sbardun i waith odli geiriau yn ogystal â thrafodaeth ar ailgylchu.

Drwy holi medrus, a chyflwyno clir, mae'r athrawon yn herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu ac i gymryd balchder yn eu gwaith. Yn gyffredinol, mae cyflymdra gwersi'n bwrpasol ac yn sicrhau bod cynnydd yn digwydd yn ystod bron pob gwers. Mae'r disgwyliadau'n uchel, ac mae'r athrawon yn parchu gwaith, a barn, y disgyblion.

Mae'r athrawon i gyd yn cydweithio'n agos iawn i olrhain cynnydd disgyblion, gan fonitro a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd yn ystod pob tymor. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau a diffygion pob disgybl yn arbennig o dda. Yn eu cynllunio wythnosol, maent yn gwerthuso'r safonau a gyflawnodd y disgyblion yn flaenorol, gan gynllunio gweithgareddau penodol sy'n targedu carfanau o ddisgyblion yn effeithiol iawn.

Mae marcio'r athrawon bron i gyd yn adeiladol, gan gynnig sylwadau cadarnhaol yn ogystal â nodi meysydd y dylid eu gwella. Maent yn rhoi amser penodol i ddisgyblion ymateb yn briodol i'w sylwadau cyn symud ymlaen i'r gweithgarwch nesaf.

Mae'r athrawon i gyd yn cydweithio'n dda fel tîm i safoni a chymedroli gwaith ar draws yr ysgol, gan ddatblygu proffiliau defnyddiol sy'n enghreifftio safonau ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae canllawiau defnyddiol ar llythrennedd a rhifedd hefyd yn deillio o'r broses hon.

Mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n ddwfn yn yr ysgol, a bellach yn rhan gwbl naturiol ac adeiladol o bob gwers a sesiwn dysgu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall eu tasgau i'r dim, ac yn gallu gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion yn hynod effeithiol. Mae meini prawf llwyddiant yn rhan greiddiol o bob tasg, a chânt eu cyflwyno mewn ffordd gynnil nad yw'n tarfu ar rediad gwers nac ar amser dysgu disgyblion. Defnyddia'r athrawon bron i gyd strategaethau pwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn deall eu tasgau, yn rhoi amser iddynt ystyried eu gwaith ac i ddeall pa mor dda maent wedi cyflawni, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch camau dysgu nesaf y disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, diogel a chroesawgar dros ben. Mae gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer hybu ymddygiad da sy'n weithredol trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn trin y staff, ymwelwyr a'u cyd-ddisgyblion â pharch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn fuan iawn drwy'r systemau olrhain cynnydd effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gan athrawon adnabyddiaeth dda iawn o ddisgyblion unigol a'u hanghenion, ac maent yn darparu'r cymorth priodol. Mae'r cynlluniau addysgu unigol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys targedau cyraeddadwy, a gytunir gyda'r disgybl a'i rieni. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol a'u hadolygu'n gyson. Ceir darpariaeth a mewnbwn da gan y cynorthwywyr dysgu i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae athrawon dosbarth yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwnaegol. Gwyddant yn dda am gynnwys y cynlluniau addysg unigol, ac maent yn plethu'r targedau i'w gweithgareddau dosbarth yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion isel eu hyder yn effeithiol drwy sesiynau penodol yn yr ystafellsynhwyraidd. Er enghraifft, ar gyfer y disgyblion hyn yng nghyfnod allweddol 2, cynhelir sesiwn siarad a chynhaliaeth ar ol ysgol

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer addoli ar y cyd yn dda, ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion. Yn eu gwasnaethau boreol, caiff y disgyblion gyfle i fyfyrio ac ymateb i faterion ysbrydol a moesol. Er enghraifft, yn ystod gwasanaeth ar Santes Dwynwen, cawsant gyfle i ystyried pwy oedd yn cael lle yn eu calonnau nhw. Mae ymweliadau cyson gan grŵp sy'n hybu gwybodaeth am y Beibl yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae'r ysgol yn trefnu'n effeithiol i sicrhau cynnydd yn natblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, fel ymweld â chartref i'r henoed a chanu mewn canolfan siopa i godi arian at elusen. Mae'r athrawon yn trefnu bod aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i rannu eu profiadau, neu i siarad am eu gwaith.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i fonitro a hybu presenoldeb yn effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddisgyblion a rhieni.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o asiantaethau arbenigol ar gyfnodau priodol gan cynnwys y gwasanaethau iechyd, therapyddion iaith a'r gwasnaethau argyfwng. Mae trefniadau gofalus yr ysgol wrth ymwneud â'r asiantaethau hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos agos, cynhwysol a theuluol yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol iawn. Mae polisïau a strategaethau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol.

Mae gan yr ysgol adnoddau da sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yn effeithiol iawn, gan gynnwys cyflenwad da iawn o adnoddau technoleg gwybodaeth a llyfrau darllen. Mae'r ysgol wedi cynllunio'r ardal allanol yn effeithiol iawn i sicrhau'r defnydd gorau posibl ar ar gyfer gweithgareddau amser chwarae ac ar gyfer gwersi. Drwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae'r arweinwyr yn cynnwys y disgyblion yn effeithiol wrth

ddatblygu'r ardaloedd hyn. Mae'r ardaloedd dysgu allanol yn cyfoethogi profiadau dysgu y plant yn gryf iawn. Er enghraifft, mae ardaloedd allanol dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon yn gyson, ac maent yn estyniad cwbl naturiol o'r ystafelloedd dosbarth.

Mae'r ardal wyllt, sydd ar dir yr ysgol, yn adnodd arbennig o dda sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol iawn gan y dosbarthiadau i gyd i gyfoethogi dysgu'r disgyblion, trwy weithgareddau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, byd natur, yn ogystal ag i sbarduno gwaith creadigol.

Mae arddangosfeydd deniadol a chwaethus o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau yn creu amgylchedd sy'n symbylu'r dysgu yn effeithiol ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cael ei chynnal a'i chadw i safon uchel ac mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn brofiadol ac yn glir, tawel a chadarn ei harweiniad. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hathrawon ac o'r disgyblion. Mae ei gweledigaeth i'w gweld yn arwyddair yr ysgol, 'Gorau dysgu, cyd-ddysgu', sy'n berthnasol nid yn unig i'r disgyblion ond i'r gymuned ysgol gyfan, yn ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Trwy systemau cyfathrebu effeithiol, a strwythur pendant ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol, mae'r neges hon yn cael ei lledaenu'n effeithiol i bawb. O ganlyniad, mae'r holl randdeiliaid yn gwbl ymwybodol o weithgareddau a disgwyliadau'r ysgol.

O dan arweiniad y pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli, mae pedwar o dimoedd dysgu yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae'r timoedd hyn yn effeithiol iawn wrth fonitro, gwerthuso a chynllunio gwelliant o ran safonau, lles, profiadau dysgu, a gofal a chymorth. Mae aelodaeth a chyfraniad cynorthwywyr dysgu a llywodraethwyr i'r timoedd hyn yn sicrhau bod pawb yn teimlo perchnogaeth ar y broses, ac yn cyfrannu'n bwrpasol i ddatblygu'r ysgol fel cymuned.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn dangos parodrwydd i arloesi ac i gymryd risg wrth symud yr ysgol yn ei blaen. Mae cadernid y strwythur yn sicrhau proses hunanarfarnu o ansawdd uchel, a chyd-ddealltwriaeth ddofn o anghenion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'n cael effaith sylweddol ar wella'r ddarpariaeth addysgol, ar gysondeb arbennig yr addysgu ac ar safonau gwaith y disgyblion.

Mae cyfarfodydd rheolaidd o'r uwchdîm rheoli, y staff addysgu, ac o athrawon y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, sy'n cynnwys y cynorthwywyr dysgu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ffocysu'n gadarn ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ac ar godi safonau mewn meysydd penodol. Er enghraifft, yn ystod y tymor diwethaf, bu cyfarfodydd i drafod deilliannau'r broses olrhain cynnydd, i graffu ar lyfrau a safoni deilliannau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg a mathemateg, ac i drafod gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr wedi hen wreiddio ac wedi eu trefnu a'u gweithredu'n effeithiol.  Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.  Mae llythrennedd a rhifedd wedi cael sylw penodol a bellach yn rhan gwbl naturiol o sesiynau dysgu, ac mae safonau disgyblion yn dangos cynnydd da iawn.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn rhoi sylw da iawn i ddatblygu dealltwriaeth o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.  Maent yn gweithio'n ddyfal i wella'r ddarpariaeth, ac wedi cymryd camau sylweddol tuag at sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb y gofynion.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw cyson a phenodol i grwpiau bregus, fel disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim.  Mae olrhain cynnydd cyson ac ymyrraeth bwrpasol yn ôl yr angen wedi arwain at wella perfformiad y disgyblion hynny.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn.  Maent yn adnabod yr ysgol yn drwyadl, ac yn deall ei blaenoriaethau a'r anghenion gwella'n dda.  Maent yn cyfrannu'n dda iawn at y broses hunanarfarnu ac yn herio'r arweinyddiaeth yn briodol ynglŷn â'u gwaith.

**Gwella ansawdd:  Rhagorol**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol iawn ac yn rhan greiddiol a naturiol o waith yr ysgol.  Maent yn drylwyr ac yn cynnwys tystiolaeth eang, gan gynnwys barn yr holl randdeiliad.  Mae'n broses fyw a chreadigol iawn sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus iawn.

Mae'r broses hunanarfarnu yn arloesol yn y modd y mae pob aelod o staff yn cyfrannu'n  effeithiol iawn trwy rannu syniadau, arbenigedd a gwybodaeth.  Mae gan yr holl staff berchnogaeth ar y broses, gan gynnwys cynorthwywyr a llywodraethwyr, ac mae barn pawb yn cyfrif ac yn cael ei hystyried o ddifrif ac yn cario pwysau.  Mae'r staff yn gweithio'n  eithriadol o dda mewn timoedd dysgu sydd yn cynnal adolygiadau effeithiol iawn er mwyn sicrhau bod darlun clir a dealltwriaeth gadarn ganddynt o'r safonau a'r ddarpariaeth.  Mae'r adroddiadau, sy'n deillio o hyn, yn arfarnol ac yn cyfrannu'n glir at flaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

Mae'r trefniadau monitro, gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli, yn effeithiol iawn ac yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr i'r timoedd dysgu.  Mae arfer yr athrawon o ffilmio'i gilydd yn addysgu yn eu galluogi i finiogi eu medrau addysgu ac adnabod meysydd i'w gwella.  Yn dilyn y broses, mae arweinwyr yn rhoi ffocws clir ar y meysydd sydd angen eu gwella a datblygu ymhellach.  O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu er mwyn sicrhau gwelliant.  Caiff hyn ei harddangos yn glir yn yr adroddiadau hunanarfarnu o ansawdd uchel iawn.

Mae gweithdrefnau'r  ysgol i wrando ar lais y disgyblion yn elfen gref yn y broses.  Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau rheolaidd drwy'r amrywiol bwyllgorau a grwpiau gweithredu sydd ganddynt, fel y cyngor ysgol a'r pencampwyr digidol.  Nodwedd dda yw cyfraniad y disgyblion wrth ymateb i holiaduron amser chwarae a

mynegi barn ar sut i sicrhau gwelliant er lles pob disgybl. Mae trac rhedeg a 'mainc mêts' wedi deillio o'r gwaith hwn. Mae cyfraniad disgyblion i'r cynllunio hefyd yn bwysig ym mywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud dewisiadau am beth y maent am ei ddysgu, sy'n arwain at newid synhwyrol mewn cynlluniau athrawon, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn blaenoriaethu anghenion yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae'n ddogfen sydd yn cael ei gwerthuso gan y timoedd dysgu yn gyson ar hyd y flwyddyn ac sydd yn elfen ganolog o drafodaethau cyfarfodydd staff a llywodraethwyr. Mae'r blaenoriaethau yn gadarn ac yn ymateb yn eithriadol o dda i'r materion sydd angen gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o bartneriaethau sy'n cael effaith gref ar y ddarpariaeth. Mae cysylltiadau rhagorol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda yn effeithiol iawn ac mae'r diwylliant ardderchog o gydweithio gydag ysgolion eraill yn meithrin medrau arweinwyr i godi safonau ac ehangu profiadau disgyblion. Enghraifft dda iawn o hyn yw athrawon yn cyfrannu ffilmiau ar gyfer sesiynau hyfforddiant yr awdurdod addysg, ac yn derbyn athrawon o amryw o ysgolion eraill er mwyn lledaenu eu harfer dda yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n arbennig o dda gyda rhieni. Mae cyfleoedd rheolaidd i rieni gyfathrebuâ'r ysgol a mynegi eu barn. Mae fforwm y rhieni yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o fywyd yr ysgol yn fuddiol. Mae hyn wedi cael effaith arbennig o dda ar wella gweithdrefnau'r ysgol, er enghraifft wrth wella trefniadau trosglwyddo disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 3. Mae aelodau'r rhieni o'r fforwm yn deall rhesymau dros benderfyniadau anodd ac, o ganlyniad, mae'r bartneriaeth rhwng arweinwyr a'r rhieni gyfan yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth dda iawn gyda Llywodraeth Cymru trwy ddatblygu adnoddau newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac apiau newydd TGCh. Mae arweinwyr yn arfarnu effaith y ddarpariaeth newydd ar safonau ac yn manteisio ar ddefnyddio'r adnoddau mwyaf diweddar gyda disgyblion. Mae hyn yn ysbrydoli disgyblion ac yn cadw'r ysgol ar frig y datblygiadau newydd.

Mae trefniadau pontio'r ysgol, boed rhwng yr ysgol feithrin leol neu'r ysgol uwchradd, yn gwbl gadarn. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft y prosiect awyr las i ddisgyblion mwy abl sydd yn eu paratoi yn fuddiol ar gyfer symud ymlaen i addysg uwchradd.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o ddeilliannau disgwyliedig diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r athrawon yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at weithgareddau safoni a chymedroli ysgolion lleol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar adnoddau'r gymuned a busnesau lleol, ac yn ddiweddar, wedi croesawu ymwelwyr o ffatri plastigau i gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae ymwelwyr o'r gymuned, fel y grŵp 'Agor Y Llyfr' ac ymweliadau i gapeli lleol, yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn datblygu eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth gymdeithasol ac ysbrydol yn dda.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol iawn. Mae’r holl staff yn cydweithio er mwyn datblygu strategaethau newydd sy’n cynnig cyfleoedd i ymestyn, herio a chefnogi disgyblion. Mae cymunedau dysgu proffesiynol llwyddiannus o fewn yr ysgol a thu allan sydd yn codi ymwybyddiaeth staff o ddulliau newydd o weithio. Mae’r drefn o strwythuro’r ysgol yn dimoedd dysgu wedi creu diwylliant ble mae staff yn rhannu arfer â’i gilydd yn gyson dda. O ganlyniad, mae disgwyliadau wedi codi ac mae athrawon a chynorthwywyr wedi datblygu i fod yn agored, yn onest ac yn fwy hunanbeirniadol o’u gwaith.

Mae gan yr ysgol nifer addas o staff cymwys i ddarparu’n llwyddiannus ar gyfer y disgyblion. Mae cyfrifoldebau wedi’u dosrannu’n effeithiol ac mae’r ysgol yn gwneud defnydd ystyrlon o gynorthwywyr sy’n cyfrannu’n dda i brofiadau disgyblion a darparu cefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae’r ysgol yn darparu gweithdrefnau rheoli perfformiad gwerthfawr iawn ar gyfer athrawon a chynorthwywyr. Mae cyfleoedd da ar gyfer datblygiad parhaus i’r athrawon ac mae eu hamcanion yn glir ac yn seiliedig ar flaenoriaethau’r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio paratoi ac asesu, sydd yn bodloni’r gofynion statudol, yn effeithiol er mwyn roi ystyriaeth dda i gynnydd disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r is-bwyllgor cyllid yn weithgar iawn ac wedi cryfhau’r sefyllfa ariannol eleni trwy wneud penderfyniadau cadarn. Mae pob elfen o’r cynllun gwella ysgol yn derbyn cyllid digonol er mwyn sicrhau bod targedau i wella safonau a lles disgyblion yn cael y flaenoriaeth.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn codi safonau a sicrhau'r cyfleoedd gorau. Er enghraifft, mae’r ysgol yn darparu cefnogaeth ieithyddol a mathemategol ar gyfer disgyblion cymwys. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r disgyblion hynny.

O ystyried deilliannau disgyblion dros amser, a safon uchel y ddarpariaeth a’r addysgu, mae’r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692042 - YSGOL GYNRADD SARON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 22 | 32 | 32 | 41 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 90.9 | 87.5 | 84.4 | 90.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 32 | 32 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 90.6 | 84.4 | 95.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.3 | 25.0 | 34.4 | 43.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 32 | 32 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.5 | 93.8 | 90.6 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.3 | 25.0 | 40.6 | 46.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 32 | 32 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 93.8 | 96.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 72.7 | 78.1 | 65.6 | 82.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692042 - YSGOL GYNRADD SARON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 35 | 27 | 32 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.6 | 92.6 | 87.5 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 27 | 32 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.3 | 96.3 | 90.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.4 | 29.6 | 37.5 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 27 | 32 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.6 | 88.9 | 90.6 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 25.9 | 18.8 | 36.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 27 | 32 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.4 | 92.6 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 44.4 | 56.3 | 51.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 27 | 32 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.1 | 92.6 | 93.8 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.1 | 51.9 | 46.9 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 91<br>91%<br>92% | 9<br>9%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 98<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 96<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 100<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 98<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 97<br>97%<br>91% | 3<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 98<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 94<br>94%<br>77% | 6<br>6%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 82<br>82%<br>84% | 18<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 82 | 54 | 26 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 32% | 1% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 82 | 63 | 17 | 0 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 21% | 0% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 81 | 65 | 16 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 82 | 47 | 31 | 4 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 38% | 5% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 80 | 39 | 36 | 4 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 49% | 45% | 5% | 1% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 81 | 49 | 31 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 38% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 81 | 53 | 28 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 81 | 33 | 43 | 3 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 41% | 53% | 4% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 82 | 50 | 23 | 7 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 28% | 9% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 79 | 42 | 37 | 0 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 82 | 55 | 26 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 69 | 35 | 32 | 1 | 1 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 51% | 46% | 1% | 1% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 81 | 33<br>41% | 40<br>49% | 8<br>10% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 81 | 51<br>63% | 28<br>35% | 2<br>2% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 72 | 28<br>39% | 35<br>49% | 9<br>12% | 0<br>0% | 10 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 78 | 40<br>51% | 35<br>45% | 3<br>4% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 49 | 25<br>51% | 22<br>45% | 0<br>0% | 2<br>4% | 30 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 78 | 33<br>42% | 39<br>50% | 5<br>6% | 1<br>1% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 80 | 54<br>68% | 24<br>30% | 1<br>1% | 1<br>1% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Gwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Gwynn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwenda Easton | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.